

**GWYBODAETH AM GLUDIANT YSGOL O FEDI 2017 I GYN DDISGYBLION YSGOL
UWCHRADD JOHN SUMMERS**

C. A fydd fy mhlentyn yn cael cludiant am ddim i Ysgol Uwchradd Cei Connah?

A. Bydd pob disgybl a oedd ar gofrestr Ysgol Uwchradd John Summers yng Ngorffennaf 2017 (h.y. pan gaeodd yr ysgol) yn cael cludiant dewisol am ddim i Ysgol Uwchradd Cei Connah o Fedi 2017 hyd nes iddynt orffen Blwyddyn 11.

Yn ogystal, bydd unrhyw ddisgyblion sydd wedi gadael Ysgol Uwchradd John Summers ar ôl 1 Medi 2015 ac a drosglwyddodd i Ysgol Uwchradd Cei Connah hefyd yn cael cludiant dewisol am ddim hefyd o Fedi 2017 hyd nes iddynt orffen Blwyddyn 11.

C. Ysgol Uwchradd Cei Connah yw fy ysgol uwchradd agosaf ac mae dros 3 milltir o fy nghartref. A yw fy mhlentyn yn gallu cael cludiant am ddim yno?

A. Ydi. Mae eich plentyn â'r hawl i gael cludiant am ddim yn unol â'r polisi cludiant.

C. Ysgol Uwchradd Penarlâg yw fy ysgol uwchradd agosaf nawr ac mae dros 3 milltir o fy nghartref. A yw fy mhlentyn yn gallu cael cludiant am ddim yno?

A. Ydi. Mae eich plentyn â'r hawl i gael cludiant am ddim yn unol â'r polisi cludiant.

C. Ysgol Uwchradd Elfed yw fy ysgol uwchradd agosaf nawr ac mae dros 3 milltir o fy nghartref. A yw fy mhlentyn yn gallu cael cludiant am ddim yno?

A. Ydi. Mae eich plentyn â'r hawl i gael cludiant am ddim yn unol â'r polisi cludiant.

C. Ysgol Uwchradd Dewi Sant yw fy ysgol uwchradd agosaf nawr ac mae dros 3 milltir o fy nghartref. A yw fy mhlentyn yn gallu cael cludiant am ddim yno?

A. Ydi. Mae eich plentyn â'r hawl i gael cludiant am ddim yn unol â'r polisi cludiant.

C. Rwyf newydd symud i ardal Glannau Dyfrdwy ac Ysgol Uwchradd John Summers fyddai'r ysgol uwchradd agosaf i mi. A all fy mhlentyn gael cludiant am ddim i Ysgol Uwchradd Cei Connah?

A. Os mai Ysgol Uwchradd Cei Connah yw ysgol uwchradd agosaf eich plentyn a'i bod dros 3 milltir o'ch cartref, yna rhoddir cludiant am ddim. Os nad Ysgol Uwchradd Cei Connah yw ysgol uwchradd agosaf eich plentyn, yna nid yw eich plentyn â'r hawl i gael cludiant am ddim.

C. Sut ydw i'n gwneud cais am gludiant am ddim?

A. Mae ffurflen gais ar gael o wefan y Cyngor:

<http://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/School-Transport/Application-for-Free-School-Transport.pdf>

C. Ble allaf gael rhagor o wybodaeth?

A. Cysylltwch â'r Uned Cludiant Integredig ar school.transport@flintshire.gov.uk neu ffoniwch 01352 701234.

Polisi Cludiant Ysgol Cyngor Sir y Fflint ar gyfer Disgyblion 5-16 oed

. Darperir cludiant am ddim:

- pan fydd plentyn sy'n derbyn addysg gynradd yn byw dros ddwy filltir o'u hysgol addas agosaf;
- pan fydd plentyn sy'n derbyn addysg uwchradd yn byw dros dair milltir o'u hysgol addas agosaf;
- lle mae'r ffordd i'r ysgol yn cael ei hystyried yn beryglus gan yr Awdurdod Lleol mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddiaeth yr Amgylchedd;
- lle mae cludiant i ysgol a enwir yn cael ei nodi yn Natganiad Anghenion Addysgol Arbennig disgybl. Byddai hyn fel rheol am resymau meddygol neu addysgol a byddai'n cael ei ystyried yn hanfodol yng nghyd-destun meini prawf arall a nodwyd yn y polisi hwn
- pan fo plentyn angen cludiant am resymau meddygol ac nad oes cludiant cyhoeddus addas ar gael;
- pan fo plentyn y mae ei rieni yn derbyn Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Treth Gwaith, yn byw mwy na 2.5 milltir o'r ysgol briodol agosaf;
- i'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf o dan y meini prawf a nodwyd uchod;
- i'r ysgol wirfoddol a gynorthwyir agosaf lle mae'r mynediad i'r ysgol ar sail enwadol, yn amodol ar y meini prawf pellter. Bydd ymgynghori gydag ysgolion unigol yn cael ei gynnal i gadarnhau'r meini prawf gordanysgrifio ar gyfer derbyn disgyblion. Gellir gofyn am dystiolaeth addas o ymlyniad wrth ffydd yr ysgol megis tystysgrif bedydd neu lythyr gan offeiriad.